Ein cyf / Our ref:
ConwyDenbighshirefinalPSB /
Conwy/SirDdinbychterfynolBGC
Eich cyf / Your ref:

Howard C Davies
(Cyfarwyddwr Anweithredol Cyfoeth Naturiol Cymru)
E-bost:
Howard.C.Davies@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk
A:
nrwboardsecretariat@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk

At: Mrs Bethan Jones
Cyfarwyddwr Ardal Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr
Cynorthwyydd Personol Bethan Jones  Sharron.Loftus@wales.nhs.uk

26 Mawrth 2018

Annwyl Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Conwy a Sir Ddinbych

**Ymateb Cyfoeth Naturiol Cymru i gam cymeradwyo cynlluniau llesiant lleol terfynol, fel sy'n ofynnol gan Adran 43 (6) o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015**

Er mwyn ymgymryd â'r gofyniad hwn o'r Ddeddf mewn perthynas â'r 19 Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yr ydym yn aelodau ohonynt, sefydlwyd is-grŵp wedi'i ddirprwyo'n llawn gan Fwrdd Cyfoeth Naturiol Cymru er mwyn ystyried y cynlluniau llesiant terfynol yn ystod y cam cymeradwyo. Edrychodd is-grŵp y Bwrdd ar y cynlluniau drafft yn fanwl ac mae bellach wedi ystyried y fersiynau terfynol.

Cafodd fersiwn derfynol y Cynllun Llesiant ar gyfer Conwy a Sir Ddinbych ei hystyried ar 16 Mawrth 2018, ac mae'n bleser gennyf gadarnhau’r canlynol:

**Cymeradwywn y cynllun yn amodol ar y sylwadau a'r argymhelliad canlynol:**

- Er ein bod yn cydnabod y gwaith sylweddol sydd wedi cael ei wneud ar y cynllun ac yn croesawu eich bod wedi cynnwys "Lle – cefnogi cydnerthedd amgylcheddol" fel un o'r blaenoriaethau allweddol, roeddem yn pryderu rhywfaint ynghylch prinder y manylion am yr hyn a fydd yn cael ei wneud ac am y ffaith nad yw'r amcanion eu hunain yn amcanion CAMPUS.

- Fodd bynnag, rydym yn deall o'n cynrychiolwyr mai ychwanegu mwy o fanylion yw diben y cam rydym yn mynd i mewn iddo bellach. Rydym hefyd yn deall na fydd arweinwyr y blaenoriaethau yn bartneriaid statudol yn y sector hwnnw. Mae hwn yn ddull cyffrous, sy'n rhoi'r cyfle i sicrhau camau gweithredu cyfunol – a chaiff ei

groesawu. Gallai arwain at rywfaint o ddysgu diddorol, yr ydym yn edrych ymlaen at glywed amdano maes o law.

- Er bod y cynllun yn nodi'r sefyllfa bresennol a bod y cyflwyniad cyffredinol yn dda, roedd diffyg eglurder ynghylch sut mae'r blaenoriaethau'n cyfrannu at y nodau llesiant.

**Argymhelliad:** Rydym o'r farn y byddai'n elwa ar gael tudalen gyda phob amcan yn nodi'r hyn y gobeithir ei gyflawni, wedi'i osod yn erbyn y nodau llesiant.

Rydym yn cydnabod y gwaith sylweddol sydd wedi'i wneud eisoes i gyrraedd y man hwn, ond rydym hefyd yn cydnabod mai dyma'r cam cyntaf yn unig o ran gwneud y newid diwylliannol sydd angen ei wneud yng ngwasanaethau cyhoeddus Cymru er mwyn cyflawni'r dyhead a nodir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Edrychwn ymlaen at barhau i gydweithio â chi a chymunedau a sectorau ehangach er mwyn gwneud y cyfraniadau mwyaf posibl i'r nodau llesiant yng Nghymru.

Yn gywir,



Howard C Davies (Cadeirydd Is-grŵp Bwrdd Cyfoeth Naturiol Cymru)

CC:
Fran Lewis fran.lewis@conwy.gov.uk
Nicola Kneale nicola.kneale@denbighshire.gov.uk
Hannah Edwards hannah.edwards@conwy.gov.uk
Sian Williams Sian.Williams@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk
Euros Jones Euros.Jones@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk
Gethin Davies Gethin.Davies@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk